Breast Screening

Bron-Brawf Cymru Breast Test Wales

Don't ignore your breast screening, it could save your life.

- Breast screening reduces your risk of dying from breast cancer.
- Women aged 50 to 70 are invited for a breast X-ray every three years. Women over the age of 70 can ask for a screening appointment.
- Screening can find cancers when they are too small to see or feel. Finding and treating cancer early gives you the best chance of survival.
- Breast screening is a free NHS test that is carried out at screening centres and accessible mobile units across Wales.
- When we are screening women from your GP practice, we will send you an appointment letter and information leaflet. You will receive your first invitation before your 53rd birthday.
- A breast x-ray test called a mammogram is used to look for signs of cancer.
- Screening will miss some cancers, and some cancers cannot be cured.
- Taking part in breast screening is your choice. Read the information leaflet carefully to help you make your decision.

What you can do:

- Take part in screening every three years, even if you have had a previous normal result.
- Get to know how your breasts normally look and feel. If you notice any changes it is important that you visit your GP.
- Breast cancer can run in families. If you are worried about your risk speak to your GP.

To find out more:

Visit www.breasttestwales.wales.nhs.uk or speak to your GP.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Peidiwch ag anwybyddu eich prawf sgrinio'r fron, gallai achub eich bywyd.

- Mae sgrinio'r fron yn lleihau eich risg o farw o ganser y fron.
- Bydd merched sydd rhwng 50 a 70 oed yn cael eu gwahodd am brawf pelydr-X o'u bronnau bob tair blynedd. Gall merched sy'n hŷn na 70 oed ofyn am apwyntiad i gael prawf sgrinio.
- Mae sgrinio'n gallu dod o hyd i ganserau sy'n rhy fach i'w gweld neu deimlo. Dod o hyd i ganser yn y camau cynnar a chael triniaeth yn brydlon sy'n cynnig y cyfle gorau o wella o'r clefyd.
- Mae'r prawf sgrinio'r fron ar gael am ddim drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mewn canolfannau sgrinio ac unedau teithiol hawdd mynd iddyn nhw ar hyd a lled Cymru.
- Pan fyddwn yn sgrinio'r merched o bractis eich meddyg teulu, byddwn yn anfon apwyntiad a thaflen wybodaeth atoch drwy lythyr. Byddwch yn cael eich gwahoddiad cyntaf cyn eich pen-blwydd yn 53 oed.
- Mae'r prawf yn golygu defnyddio pelydr-X o'r enw mamogram i chwilio am arwyddion o ganser.
- Bydd sgrinio'n methu rhai achosion o ganser, ac mae'n amhosibl gwella rhai mathau o ganser.
- Chi sydd i ddewis a fyddwch yn cymryd rhan yn y broses sgrinio. Ewch ati i ddarllen y daflen wybodaeth yn ofalus i'ch helpu i benderfynu.

Y pethau y gallwch eu gwneud:

- Ewch i gael eich prawf sgrinio'r fron bob tair blynedd, hyd yn oed os ydych wedi cael canlyniad normal yn y gorffennol.
- Dysgwch sut mae'ch bronnau'n edrych ac yn teimlo fel arfer. Os byddwch yn sylwi ar unrhyw newidiadau mae'n bwysig eich bod yn mynd at eich meddyg teulu.
- Mae canser y fron yn gallu rhedeg yn y teulu. Os ydych yn poeni am eich risg ewch at eich meddyg teulu i drafod y mater.

I ddysgu mwy:

Ewch i www.breasttestwales.wales.nhs.uk neu siaradwch â'ch meddyg teulu.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales